# Adroddiad Cynnydd Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Ebrill 2026

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy**

**Enw'r Swyddog Cyfrifol: Sue Hall, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar**

**Dyddiad Cwblhau: 28 Ebrill 2026**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Diweddariad Cyffredinol | 2 |
| Cynnydd a Wnaed ar y Targedau | 4 |
| Cyflenwad Gofal Plant | 11 |
| Y Galw am Ofal Plant | 13 |
| Crynodeb | 17 |
| Cynllun Gweithredu Diwygiedig | 20 |
| Manylion Cyswllt | 23 |

**DIWEDDARIAD CYFFREDINOL**

Mae gan Sir Fynwy ganran uwch na chyfartaledd Cymru o rieni sy'n gweithio, felly bu bob amser lawer o alw am ofal plant ac nid oedd Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol wedi dynodi bylchau sylweddol mewn darpariaeth, yn arbennig ar gyfer plant dan 5 oed. Serch hynny, arweiniodd cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant at gynnydd yn y galw am leoedd ac mae'r galw wedi cynyddu ymhellach dros y 12 mis diwethaf gydag ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg. Yn nhymor yr haf 2025, dywedodd tua traean o'r holl leoliadau eu bod yn llawn ac yn gweithredu gyda rhestr aros am leoedd llawn-amser. Felly, fe wnaethom gynnig cefnogaeth a chymhellion ariannol i ddarparwyr newydd neu bresennol i'w hannog i agor lleoliadau newydd neu ehangu eu darpariaeth bresennol. Fel canlyniad, rydym wedi gweld datblygiadau mewn darpariaeth gofal plant ers mis Ebrill 2025 a bu cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant a gynigiwyd.

Rydym yn ffafrio dull gweithredu economi cymysg pan ddaw i gyflawni ein dyletswyddau statudol o amgylch gofal plant Dechrau'n Deg ac addysg gynnar, felly rydym yn cynnig darpariaeth a gynhelir a hefyd nas cynhelir ac yn galluogi rhieni i ddewis y lleoliad gorau i ddiwallu eu hanghenion. Rydym hefyd yn ymroddedig i degwch ar gyfer darparwyr, felly mae unrhyw leoliad sy'n cyrraedd y safonau ac ansawdd darpariaeth gofynnol yn gymwys i gynnig lleoedd addysg gynnar a gofal plant Dechrau'n Deg. Fe wnaethom gynnal proses dendr yn nhymor haf 2025 ac fel canlyniad mae gennym yn awr 30 o ddarparwyr addysg gynnar cymeradwy nas cynhelir a 39 o ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg nas cynhelir, yn cynnwys 6 o warchodwyr plant. Mae gennym hefyd 13 meithrinfa a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn darparu addysg gynnar a 4 lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae 94% o'n darparwyr gofal sesiynol neu ofal dydd (44 lleoliad) yn cynnig naill ai leoedd addysg gynnar neu ofal plant Dechrau'n Deg a bydd lleoliad arall yn ymuno â nhw yn nhymor yr haf; bydd hynny yn ein gadael gyda dim ond dau leoliad nad ydynt yn cynnig lleoedd a gyllidir a maent ill dau yn lleoliadau awyr agored, felly mae eu cymarebau staffio yn uwch, felly mae angen i'w ffioedd fod yn uwch na'r gyfradd a gyllidir gan Lywodraeth Cymru.

Caiff y defnydd o leoedd ei fonitro bob tymor i sicrhau fod lleoedd digonol ar gael ac i ddynodi unrhyw dueddiadau yn y galw. Dros yr ychydig flynyddoedd diweddar, gwelsom fod mwy o deuluoedd yn dewis darpariaeth addysg gynnar nas cynhelir sy'n fwy hyblyg ac a all gynnig gofal plant cofleidiol, gan ffafrio hynny dros feithrinfeydd ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mewn ymateb, rydym wrthi'n mynd drwy'r broses statudol i gau un o'n meithrinfeydd ysgol a chael lleoliad nas cynhelir ar y safle yn ei le.

Mae ansawdd darpariaeth yn Sir Fynwy yn parhau yn uchel. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cafodd pedwar darparydd addysg gynnar nas cynhelir eu harolygu ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru a chafodd tri ohonynt raddiad rhagorol am Lesiant a Gofal & Datblygu a da am bob maes arall. Cafodd y pedwerydd lleoliad Hysbysiad Gweithredu Blaenoriaeth ar gyfer maes o ddiffyg cydymffurfiaeth, ond maent wedi cau'n barhaol ers yr arolwg.

Dynodwyd yn flaenorol fod y gweithlu yn rhwystr i ddatblygu darpariaeth gofal plant, gan fod prinder staff gyda chymwysterau addas. Bu hyn yn un o'n blaenoriaethau am y ddwy flynedd ddiwethaf, felly rydym wedi cynyddu nifer y digwyddiadau ymgysylltu y buom ynddynt ac wedi buddsoddi mewn adnoddau a thaflenni hyrwyddo. Rydym hefyd wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r canolfannau gwaith, gan roi gwybodaeth berthnasol iddynt ar gyfer rhieni a mynychu eu Fforwm Rhieni Gofal Plant. Mae un o'n pedair ysgol uwchradd yn cynnig y cwrs Lefel 2 Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu fel rhan o'u cwricwlwm ôl-16 am y tro cyntaf ac mae gennym gohort o bump myfyriwr ar hyn o bryd. Rydym wedi cynnal sesiynau ym mhob un o'n ysgolion uwchradd a chawsant eu croesawu, a gobeithiwn gael un cohort yng ngogledd y sir ac un yn y de ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon rydym wedi cyflwyno neu hwyluso 64 cyfle hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr gofal plant ar draws 24 cwrs gwahanol. Mae'r rhain yn amrywio o gyrsiau statudol tebyg i Gymorth Cyntaf Pediatrig, Diogelu a Chodi a Chario i gyrsiau arfer gorau yn cynnwys Modiwlau ADY, Ein Byd Synhwyraidd, Gwneud Synnwyr o Awtistiaeth, Strategaethau Cyfathrebu Cynnar, Ymarfer Ystyriol o Drawma, Ymarfer An-Hiiol i Wrth-Hiliol, Ymagweddau Cadarnhaol at Ymddygiad, Sgwrs Athrawon, Recriwtio Diogelach, Froebel a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r galw am hyfforddiant yn gyffredinol dda a dim ond un lleoliad sydd heb ddefnyddio hyfforddiant gyda'r awdurdod lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Gall gofalwyr plant archebu lle ar ein holl gyrsiau hyfforddiant a cheisiwn gynnig rhai cyrsiau gyda'r nos neu ar benwythnosau i'w galluogi i fynychu; rydym hefyd yn datblygu gweminarau i rannu negeseuon allweddol o hyfforddiant.

Mae cyfraddau cyllid a'r hinsawdd ariannol cyfredol wedi achosi problemau i rai o'n darparwyr gofal plant a rydym wedi gweld dau leoliad hirsefydlog yn cau eleni. Rydym yn falch i un ohonynt gael ei gymryd gan leoliad presennol o awdurdod lleol cyfagos ac mae un o'n lleoliadau wedi cymryd les y lleoliad arall ac yn gobeithio agor eu hail leoliad yn nhymor yr haf 2026. Rydym hefyd wedi rhoi grantiau cynaliadwyedd i ddau leoliad gofal dydd oedd mewn anawsterau oherwydd y cynnydd mewn biliau cyfleustodau.

Dyfarnwyd grantiau cyfalaf bach yn gyfanswm o £388,470 i 50 darparydd gofal plant yn 2025-26 i'w galluogi i gynnal a chadw eu safleoedd a gwneud gwelliannau i'w hamgylchedd dysgu. Fe wnaethom ddatblygu Achos Cyfiawnhad Busnes llawn ar gyfer lleoliad gofal plant pwrpasol ar dir ysgol gynradd sydd mewn pentref lle nad oes unrhyw ddarpariaeth gofal plant ar hyn o bryd. Cyflwynwyd hyn i Lywodraeth Cymru i wneud cais am gyllid cyfalaf o Gynllun Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar.

## CYNNYDD A WNAED AR Y TARGEDAU

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed yn 2025-26 ar Gynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2025.

| Targed | Pam fod angen hyn? | Sut y cyflawnir hyn? | Sut y caiff ei fonitro? | Cynnydd 2025-26 | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu 3 lleoliad gofal dydd llawn neu ofal sesiynol neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnig mwy o leoedd ar gyfer plant dan 5 oed. | Mae lleoedd ar gyfer plant dan bump oed yn dyn mewn rhai rhannau o Sir Fynwy ac, er bod lle mewn rhai sesiynau, nid yw'n bosibl bob amser i gynnig lle amser llawn.<br><br>Mae ymestyn gofal plant am ddim ar gyfer pob plentyn dwy oed yn debygol o waethygu'r sefyllfa yma. | Monitro'r defnydd o leoedd mewn gofal dydd llawn a gofal sesiynol drwy ddefnydd Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Chynnig Gofal Plant, yn ogystal â chyfathrebu rheolaidd gyda darparwyr.<br><br>Cynnig cyngor a chefnogaeth ynghyd â chymhellion ariannol i ddatblygu darpariaeth newydd neu gynyddu lleoedd. | Caiff nifer y lleoliadau ei fonitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru a chaiff y defnydd o leoedd ei fonitro bob tymor.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu monitro drwy adroddiadau chwarterol CSG. | Bu datblygiadau sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael i blant dan bump oed:<br>• Agorodd Meithrinfa Ddydd Trefynwy yn HABS ym Medi 2025 yn cynnig gofal dydd llawn.<br>• Agorodd Little Gems ym mis Medi 2025 hefyd, yn darparu addysg gynnar a gofal cofleidiol yn Ysgol Gynradd Durand yng Nghil-y-coed.<br>• Newidiodd Celyn Childcare eu cofrestriad o ddarpariaeth ar ôl ysgol i ofal dydd llawn i gynnwys addysg gynnar a gofal cofleidiol yn Ysgol Gynradd Overmonnow, Trefynwy. | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Symudodd Little Oaks, lleoliad Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol yn y Fenni, i'r ysgol newydd ym mis Medi 2025 ac ehangu eu darpariaeth i gynnwys gofal cofleidiol ar gyfer plant yn Ysgol 3-19 Brenin Harri VIII.<br><br>Yn anffodus, bu'n rhaid i un o'n meithrinfeydd dydd hirsefydlog yn y Fenni gau am resymau personol; fodd bynnag mae darparydd arall wedi cymryd y les ac yn mynd drwy'r broses gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Mae gennym bellach 30 lleoliad cymeradwy nas cynhelir fel darparwyr Addysg Gynnar a 43 o ddarparwyr cymeradwy gofal plant Dechrau'n Deg, yn cynnwys 4 lleoliad a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. | |
| Datblygu clwb ar ôl ysgol yn ardaloedd Cil-y-coed a'r Fenni neu gynyddu nifer y lleoedd ysgol a | Cafwyd adborth gan rieni fod prinder lleoedd ar ôl ysgol mewn rhannau o Gil-y-coed a'r Fenni, yn arbennig y rhai sydd ar agor tan o leiaf 5.30pm i ateb | Bydd y Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos gyda Chlybiau Plant Cymru i ddatblygu darpariaeth ar ôl ysgol ychwanegol. | Caiff nifer y lleoliadau ei fonitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru a chaiff y | Cofrestrodd clwb ar ôl ysgol ar safle Ysgol Gynradd Parc y Castell, Cil-y-coed ym mis Medi 2025. Mae gan dri chwarter yr holl ysgolion yng nghlwstwr Cil-y-coed bellach | Medi 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gynigir mewn lleoliadau presennol. | anghenion rhieni sy'n gweithio. | Cynigir grantiau datblygu fel cymhelliant. | defnydd o leoedd ei fonitro bob tymor.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu monitro drwy adroddiadau chwarterol CSG. | fynediad i ddarpariaeth ar ôl ysgol.<br><br>Ni fu cynnydd yn y lleoedd ar ôl ysgol a gynigir y ardal y Fenni; fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion eisoes ddarpariaeth ysgol ar y safle.<br><br>Yn ychwanegol, cofrestrodd Lil Rascals glwb gwyliau 90-lle ym Magwyr ac ehangodd Grŵp Chwarae Drenewydd Gellifarch eu darpariaeth i gynnwys gofal yn ystod gwyliau'r ysgol. | |
| Annog a chefnogi clybiau allan o'r ysgol presennol ac unrhyw leoliadau gofal plant newydd a ddatblygwyd i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. | Mae rhieni a gofalwyr yn methu cael mynediad i gyllid i gefnogi gyda chost gofal plant os nad yw lleoliadau wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Mewn lleoliadau heb gofrestru, mae'n anodd sicrhau bod gofal plant o safon digonol. | Swyddog Datblygu Gofal Plant i gefnogi clybiau presennol a lleoliadau newydd i fynd â nhw drwy broses gofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Hyfforddiant i gael ei ariannu os yw hyn yn rhwystr sy'n atal lleoliadau rhag cofrestru. | Nifer lleoliadau cofrestredig i gael eu monitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Defnydd hyfforddiant i gael ei fonitro drwy adroddiadau cynnydd chwarterol CSG.<br><br>Cymwysterau staff i gael ei fonitro'n flynyddol. | Mae pob lleoliad newydd a sefydlwyd eleni wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru cyn agor, yn cynnwys y clybiau allan o'r ysgol.<br><br>Ni fu unrhyw gynnydd mewn annog darparwyr presennol heb gofrestru i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, gan eu bod yn hapus gyda'u trefniadau presennol. | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cofrestru 10 gofalwr plant newydd ar draws Sir Fynwy a chefnogi darparwyr presennol i o leiaf gynnal y lefel gyfredol o ddarpariaeth. | Mae bob amser drosiant uchel o warchodwyr plant oherwydd natur dros dro y gwaith, ond roedd hyn hyd yn oed yn fwy o broblem yn ystod y pandemig ac mae cyfanswm nifer gwarchodwyr plant wedi gostwng yn sylweddol yn y pum mlynedd ddiwethaf.<br><br>Gwarchodwyr plant sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol. | Gweithio mewn partneriaeth gyda PACEY Cymru i ddarparu sesiynau gwybodaeth i ofalwyr plant a chefnogaeth barhaus drwy'r broses gofrestru ac ar ymgyrch i recriwtio mwy o warchodwyr plant.<br><br>Parhau i gynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer hyfforddiant cyn-cofrestru a grantiau cychwyn. | Caiff gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru a gwarchodwyr plant sy'n dad-gofrestru eu monitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Monitro'r defnydd o hyfforddiant cyn-cofrestru drwy gofnodion misol cymorth PACEY a chofnodi nifer grantiau cychwyn gwarchodwyr plant a ddyfernir bob tymor. | Roedd un gwarchodwr plant wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod tymor hydref 2025. Yn anffodus, penderfynodd un gwarchodwr plant oedd wedi atal eu cofrestriad dros dro i ganslo eu cofrestriad yn barhaol ac mae gwarchodwr plant arall wedi atal eu cofrestriad dros dro gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel canlyniad, mae cyfanswm nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn Sir Fynwy wedi parhau yn gyson ar 28.<br><br>Mae'n galonogol fod nifer o ddarpar warchodwyr plant wedi cwblhau ei briffiad gofal plant gyda Coram Pacey yn ddiweddar, felly gobeithiwn weld y nifer yn dechrau cynyddu yn fuan. | Mawrth 2027 |
| Sefydlu cylch meithrin yn Nhrefynwy a Chas-gwent fel bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob un o'r pedwar clwstwr. | Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yng nghlystyrau Trefynwy na Chas-gwent ar hyn o bryd.<br><br>Soniodd rhieni am ddiffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg a | Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol.<br><br>Cynnig cymhellion ariannol tebyg i grantiau | Caiff nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ei gynnwys yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg a chaiff hyn ei adolygu bob tymor. | Ni fu unrhyw gynnydd ar y cam gweithredu hwn. Ni fu'n bosibl sefydlu Cylch Meithrin Trefynwy oherwydd diffyg lle ar y safle presennol ac ansicrwydd am gartref parhaol ar gyfer yr ysgol Gymraeg yn Nhrefynwy. Rydym yn disgwyl clywed beth fyddai'r gost ar | Medi 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | phellter o ddarpariaeth bresennol fel rheswm am beidio defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. | datblygu a chynaliadwyedd i gynnwys costau cychwyn a chyfran o gostau rhedeg. | | gyfer sefydlu adeilad modwlar ar y safle a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n llwyr ar gyfer gofal plant.<br><br>Mae angen gwneud mwy o waith i sefydlu galw yn ardal Cas-gwent. Rydym wedi bod i weld nifer o safleoedd posibl yn yr ardal ond mae angen gwneud llawer o waith ar gyfer cyflwyno gofal plant ac ni chawsom ein darbwyllo ei fod yn y lleoliad mwyaf addas. | |
| Ymestyn nifer y lleoedd, oriau agor neu wasanaethau a gynigir gan ein lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg presennol. | Nid oes digon o ddarpariaeth plant gofal cyfrwng Cymraeg, yn arbennig gofal diwrnod llawn a gofal plant yn ystod gwyliau plant, i ateb anghenion rhieni sy'n gweithio. | Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin a darparwyr presennol i ymestyn darpariaeth plant gofal plant cyfrwng Cymraeg.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu cynnig fel cymhelliant i gefnogi lleoliadau i ymestyn eu darpariaeth. | Caiff nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a chaiff ei adolygu bob tymor. | Cafodd y ddau leoliad cylch meithrin presennol eu cymeradwyo i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ac mae'r defnydd o leoedd wedi cynyddu yn y ddau leoliad.<br><br>Bydd Cylch Meithrin y Fenni yn symud i safle newydd gyda'r ysgol Gymraeg yn nhymor hydref 2026. Maent felly yn gobeithio ymestyn eu hystod oedran i gynnwys plant dan ddwy oed. | Mawrth 2027 |
| Mynychu o leiaf 6 digwyddiad i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant gofal | Mae diffyg ymarferwyr gofal plant cymwys ac mae hyn yn cyfyngu datblygu lleoedd gofal plant ychwanegol, yn | Llunio a rhoi cyhoeddusrwydd i Lyfryn Gyrfaoedd mewn Gofal Plant a rhannu hyn yn eang drwy'r wefan, | Cofnodir nifer y digwyddiadau a fynychwyd, negeseuon cyfryngau cymdeithasol | Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, fe wnaethom fynychu 14 digwyddiad lleol yn cynnwys ffeiriau gyrfa, nosweithiau agored chweched | Parhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| plant a gyrfaoedd mewn gofal plant. | ogystal â bygwth hyfywedd darpariaeth gofal plant presennol.<br><br>Mae angen i ni wneud yr hyn a fedrwn i annog mwy o bobl i hyfforddi er mwyn cynyddu'r gweithlu gofal plant. | cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.<br><br>Mynychu Ffeiriau Gyrfa a digwyddiadau tebyg i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant.<br><br>Gweithio gyda'r pedair ysgol uwchradd i sefydlu cymhwyster Lefel 2 Gofal Plant fel rhan o'u cwricwlwm ôl-16. | ac unrhyw fath arall o hyrwyddo.<br><br>Cofnodir ymholiadau yn ymwneud â hyfforddiant gofal plant neu gyfleoedd swydd gofal plant.<br><br>Cofnodir nifer y myfyrwyr sy'n ymrestru ar y cwrs Lefel 2 Gofal Plant. | dosbarth a digwyddiadau cymunedol. Rydym hefyd wedi llunio llyfryn Gyrfaoedd mewn Gofal Plant a fideo hyrwyddo y gellir ei rannu ar-lein ac mewn digwyddiadau yn y dyfodol.<br><br>Dechreuodd cwrs Lefel 2 Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu yn Ysgol Brenin Harri VIII yn y Fenni ym Medi 2025 ac mae gennym bump myfyriwr ar hyn o bryd. Gobeithiwn gael cohortau yng ngogledd a de y sir flwyddyn nesaf. | |
| Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a hysbysebu'r cymorth ariannol sydd ar gael i gynorthwyo gyda chost gofal plant (yn cynnwys Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar a Gofal Plant Di-dreth). | Yn ôl yr arolwg o rieni ac ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, fforddiadwyedd yw'r prif rwystr i gael mynediad i ofal plant yn Sir Fynwy.<br><br>Mae llawer o gynlluniau ar gael i gefnogi gyda chost gofal plant. | Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo gofal plant newydd a presennol ac argaeledd cymorth ariannol gofal plant drwy ein hadran ar wefan Cyngor Sir Fynwy ac ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Caiff y llyfryn Cefnogaeth Ariannol Gofal Plant ei rannu yn eang. | Mae'r Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd yn paratoi adroddiadau misol yn cynnwys manylion gweithgareddau hyrwyddo.<br>Mae defnyddwyr gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cwblhau ffurflenni gwerthuso.<br><br>Caiff y defnydd o Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a'r Cynnig Gofal | Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi defnyddio e-bost a chyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r canlynol:<br>• Cynnig Gofal Plant<br>• Cymorth ariannol ar gyfer teuluoedd<br>• Gyrfaoedd a swyddi gwag mewn gofal plant<br>• Lleoliadau gofal plant newydd<br>• Mae lleoedd gofal plant a dyddiau agored ar gael<br>• Arolwg gofal plant ar gyfer lleoliadau a rhieni | Parhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Plant eu monitro bob tymor. | • Dyddiadau derbyn i ysgolion<br>• Sesiynau chwarae actif a gweithgareddau gwyliau ysgol<br>• Grwpiau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg<br>• Grwpiau Ti a Fi/Rhiant a Phlentyn<br>• Grwpiau a gweith-gareddau babanod yn cynnwys amser rhigwm<br>• Gweithdai Paratoi ar gyfer yr Ysgol i rieni<br>• Grant Hanfodion Ysgol<br>• Cyrsiau cyn-enedigol a chymorth magu ar y fron Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Brechiadau a chlinigau<br>• Ymgynghoriad Meithrinfa Durand<br>• Dadfest Cymru<br>• Arolwg Bwyd Blynyddoedd Cynnar<br>• Digwyddiadau cymunedol<br>Rydym hefyd wedi prynu baner naidlen, taflenni ac adnoddau hyrwyddo y gellir mynd â hwy i ddigwyddiad allanol i hyrwyddo ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. | |

## CYFLENWAD GOFAL PLANT

Mae’r tabl isod yn dangos cyflenwad darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy ar ddiwedd mis Mawrth 2026 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth wedi cofrestru a heb gofrestru, gan fod rhai o’r glybiau allan o’r ysgol yn rhedeg am ddwy awr a heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

| Math Gofal Plant | Gofalwyr Plant | Gofal Dydd Llawn | Gofal Sesiynol | Gofal Allan o’r Ysgol | Chwarae Mynediad Agored | Crèches | Nanis | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2026 | 28 | 41 | 6 | 22 | 0 | 0 | 3 | 100 |
| Mawrth 2025 | 28 | 37 | 7 | 22 | 0 | 0 | 6 | 100 |
| Gwahaniaeth | 0 | +4 | -1 | 0 | 0 | 0 | -3 | O |

Mae cyfanswm nifer y darparwyr gofal plant (ac eithrio nanis) wedi cynyddu o 94 i 97 yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Bu’r cynnydd mewn gofal dydd llawn, fel bod bellach mwy o leoedd ar gael ar gyfer plant 0-5 oed nag yn flaenorol ac mae mwyafrif darparwyr gofal plant yn cynnig darpariaeth rhwng 9am a 3pm, fel isafswm. Mae tua hanner y lleoliadau hyn hefyd yn darparu gofal plant yn ystod gwyliau ysgol.

Ychydig iawn o newid a welsom ymhlith gwarchodwyr plant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Dim ond un gwarchodwr plant sydd wedi canslo eu cofrestriad ac un wedi atal eu cofrestriad dros dro gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, sy’n welliant sylweddol o’r flwyddyn ariannol flaenorol. Yn anffodus, rydym yn ei chael yn anodd recriwtio gwarchodwyr plant newydd a dim ond un gwarchodwr plant sydd wedi cofrestru yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda Coram Pacey i roi cyngor a chefnogaeth i unigolion sy’n ystyried gyrfa mewn gwarchod plant a’r rhai sy’n mynd drwy’r broses gofrestru, a rydym yn obeithiol y gallwn gynyddu nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rydym wedi gweld clwb ar ôl ysgol newydd a chlwb gwyliau newydd yn cael eu datblygu ers mis Ebrill 2025 ond rydym hefyd wedi gweld un ddarpariaeth yn cau ac un yn newid eu cofrestriad i ofal dydd llawn, fel bod cyfanswm nifer y clybiau allan o’r ysgol hefyd yn parhau heb ei newid. Mae’r ffigur hwn yn cynnwys darpariaeth heb gofrestru sy’n darparu gwasanaeth ar gyfer teuluoedd, er fod mwy na draean clybiau allan

o’r ysgol yn awr wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn ychwanegol, mae gan ein holl ysgolion cynradd bellach glybiau brecwast a gofal ysgol am ddim ar y safle.

Cyflenwad isel sydd o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gan mai dim ond dau gylch meithrin, un clwb ar ôl ysgol ac un gwarchodwr plant sy’n cynnig darpariaeth gofal plant yn y Gymraeg sydd gennym; mae hefyd feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan yr awdurdod lleol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnig Addysg Gynnar.

Ym mis Rhagfyr 2025 fe wnaethom gynnal ymgynghoriad gyda darparwyr gofal plant ar draws Sir Fynwy a chawsom ymatebion gan gyfanswm o 43 darparydd ledled Sir Fynwy. Mae hyn yn llai na hanner yr holl ddarparwyr, felly nid yw’r rhifau eu hun yn neilltuol o berthnasol; serch hynny, mae’n cynnwys croestoriad da o’r farchnad gofal plant yn Sir Fynwy, felly mae’r data yn ddefnyddiol ar gyfer adnabod tueddiadau.

Ar draws y 43 lleoliad, roedd 1,825 o blant ar y gofrestr, gyda dosbarthiad yn dangos dwysedd poblogaeth a chrynhoad cyfleusterau gofal plant:

- Cil-y-coed oedd â’r nifer fwyaf ar y gofrestr (555), gyda’r Fenni yn dilyn yn agos (487).
- Roedd gan Cas-gwent 398 o blant a Threfynwy 235 o blant, gyda 150 ar y gofrestr rhwng Rhaglan a Brynbuga .

Rhyngddynt dywedodd darparwyr fod 173 lle llawn amser ar gael ar gyfer plant dan 5 ar hyn o bryd. Roedd argaeledd yn amrywio yn ôl ardal:

- Cil-y-coed (48) a’r Fenni (47) oedd â’r nifer fwyaf o leoedd.
- Roedd Rhaglan a Brynbuga (36) a Chas-gwent (23) yn dilyn.
- Trefynwy oedd â’r nifer leiaf o leoedd ar gael (19).

Mae’r dosbarthiad hwn yn awgrymu, er fod gan rhai ardaloedd gapasiti i ddarparu ar gyfer plant ychwanegol, mae eraill – yn arbennig Trefynwy a Chas-gwent – â llai o leoedd. Dywedodd 20 o’r 43 darparydd fod ganddynt restr aros.

Ar draws y sir, teimlai 18 o ddarparwyr fod angen mwy o leoedd gofal plant; roedd y teimlad hwn yn amrywio’n helaeth yn ôl ardal.

- Darparwyr Cil-y-coed fynegodd y farn gryfaf, gyda 10 lleoliad yn dweud fod angen mwy o leoedd.
- Dangosodd Cas-gwent hefyd alw amlwg (5 lleoliad).
- Dim ond 2 ddarparydd y Fenni a deimlai fod angen mwy o leoedd.
- Dim ond un darparydd yn Nhrefynwy oedd o’r farn hon.
- Ni theimlai unrhyw ddarparwyr yn Rhaglan a Brynbuga fod angen lleoedd ychwanegol.

Mae’r gwahaniaethau hyn yn awgrymu pwysau lleol amrywiol – ymddengys mai Cil-y-coed a Chas-gwent oedd â’r galw cliriaf heb ei gyflawni, er bod ardaloedd eraill yn ystyried fod y ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol i raddau helaeth.

Cyfran gymharol fach o leoliadau (7 allan o 43) fynegodd fwriad i ehangu neu gynyddu eu darpariaeth:

- Cafwyd y diddordeb mwyaf o'r Fenni (4 darparydd).
- Roedd un darparydd yr un yng Nghil-y-coed, Trefynwy a Rhaglan & Brynbuga yn bwriadu ehangu.
- Ni ddywedodd unrhyw ddarparwyr yng Nghas-gwent unrhyw fwriad i ehangu ar hyn o bryd.

Yn wahanol i hynny, dywedodd nifer fwy o osodiadau – cyfanswm o 14 – y byddent yn ystyried agor lleoliad arall pe byddai cyfle addas yn codi. Roedd hyn yn neilltuol o amlwg yn y Fenni a Chil-y-coed, gyda 5 lleoliad yn y naill le a'r llall yn mynegi diddordeb.

## Y GALW AM OFAL PLANT

Mae'r galw am leoedd gofal plant ac addysg gynnar yn parhau'n uchel yn Sir Fynwy, gyda thua 96% o blant cymwys yn cael mynediad i addysg gynnar yn nhymor yr hydref 2025 a thymor y gwanwyn 2026. Mae'r tueddiad tuag at rieni yn dewis lleoliadau nas cynhelir yn hytrach na meithrinfeydd ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi parhau, gyda thua 60% o blant yn cael eu haddysg gynnar gyda darparydd nas cynhelir yn 2025-26. Mewn ymateb i'r galw hwn, rydym yn y broses o gau un o'r meithrinfeydd ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol a chyflwyno lleoliad nas cynhelir ar safle'r ysgol fydd yn cynnig lleoedd addysg gynnar a gofal plant cofleidiol. Mae'r galw am leoedd Cynnig Gofal Plant hefyd yn uchel yn Sir Fynwy ac mae'r ystadegau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu fod 100% o deuluoedd cymwys yn Sir Fynwy yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant. Er y galw uchel hwn am leoedd, rydym gan fwyaf yn yn medru ateb y galw, ac ni wyddom am unrhyw deuluoedd a fyddai'n hoffi cymryd eu hawl i addysg gynnar neu ofal plant a gyllidir drwy'r Cynnig Gofal Plant ond na all wneud hynny. Fodd bynnag, roedd rhai na fedrodd gymryd eu hawl llawn yn ystod tymor yr haf, pan mae'r galw am leoedd ar ei uchaf.

Mae ehangu gofal plant Dechrau'n Deg wedi parhau yn ystod 2025-26, er fod yr ymestyn hwn wedi bod yn arafach na'r disgwyl oherwydd cyfyngiadau cyllid. Cafodd mwyafrif darparwyr gofal diwrnod llawn a gofal sesiwn eu cymeradwyo i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg, ynghyd â rhai gwarchodwyr plant, felly gall teuluoedd ddewis y ddarpariaeth orau i ddiwallu eu hanghenion. Mae hefyd yn golygu fod angen llai o bontio ar gyfer plant ifanc, gan y gallant yn aml aros gyda'r un darparydd ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg, addysg gynnar a gofal plant cofleidiol wedi'i gyllido drwy'r Cynnig Gofal Plant.

Bu cynnydd pellach yn y galw am addysg gynnar cyfrwng Cymraeg eleni; yn nhymor yr haf 2025 roedd 97 o blant yn cael addysg gynnar cyfrwng Cymraeg ym meithrinfeydd ysgolion yr awdurdod ysgol, sy'n cyfrif am bron 10% o'r holl garfan. Ni fu unrhyw newid yn y defnydd o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg, fodd bynnag dim ond mewn dwy ardal o Sir Fynwy mae hyn ar gael ar hyn o bryd. Bu datganiadau diddordeb ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy, ond nid oes gennym ddarpariaeth i ateb y galw hwn ac yn ei chael yn anodd datblygu'r ddarpariaeth oherwydd diffyg lle mewn safle addas a chyfyngiadau adeiladau yn yr ardal oherwydd problemau llifogydd. Ni wyddom am unrhyw alw am leoedd gofal plant mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg.

Nid oes gennym ddarpariaeth arbenigol yn Sir Fynwy ar gyfer plant blynyddoedd cynnar, yn lle hynny mae disgwyliad y bydd pob darparydd yn cymryd plant y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Er mwyn paratoi lleoliadau i ddiwallu anghenion y plant hyn, mae gennym becyn hyfforddiant helaeth ar ADY a thîm o dri Cynghorydd ADY sy'n hwyluso cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer plant unigol a chefnogi darparwyr i weithredu ymyriadau priodol. Mae hefyd bot bach o gyllid a gaiff ei ddyrannu i leoliadau i roi cymorth ychwanegol lle dangoswyd fod angen.

Fe wnaethom gynnal arolwg gofal plant ar gyfer rhieni a gofalwyr ym mis Rhagfyr 2025 a chael cyfanswm o 129 ymateb ar draws Sir Fynwy:

- Roedd y nifer uchaf o ymatebion yn Nhrefynwy (45), gyda'r Fenni yn dilyn (32).
- Cafodd yr ymatebion eraill eu gwasgaru rhwng Cil-y-coed (23), Cas-gwent (16) a Rhaglan a Brynbuga (13).

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (56.6%, 73 o 129) fod ganddynt o leiaf un plentyn o oedran ysgol.

Roedd y defnydd cyfredol a adroddwyd yn ôl math o ofal plant fel sy'n dilyn:

- Gofal dydd llawn - 46.5% (60)
- Clwb cyn ysgol - 24.8% (32)
- Clwb ar ôl ysgol - 17.8% (23)
- Clwb gwyliau - 16.3% (21)
- Gofal sesiynol/grŵp chwarae/cylch - 15.5% (20)
- Gwarchodwr plant - 14.7% (19)

Mae bwriadau'r dyfodol ar gyfer defnyddio gofal plant yn dangos pwysau cynyddol am ofal allan o'r ysgol, tra bod y defnydd o ofal diwrnod llawn yn parhau'n uchel:

- Clwb ar ôl ysgol: 51.2% (66)
- Gofal dydd llawn: 48.8% (63)
- Clwb cyn ysgol: 47.3% (61)
- Clwb gwyliau: 43.4% (56)
- Gofal sesiynol: 22.5% (29)
- Gwarchodwr plant: 16.3% (21)

Mae hyn yn golygu bod y galw uchaf a ragwelir am y mathau o ofal sydd yn fwyaf uniongyrchol yn galluogi dyddiau gwaith llawn a pharhad ar draws amser tymor a chyfnodau gwyliau –h.y, gofal dydd llawn, clybiau ar ôl ysgol, gofal cyn ysgol a darpariaeth gwyliau.

Pan ofynnwyd iddynt os cawsant unrhyw anawsterau yn cael mynediad i ofal plant addas, dywedodd 77.5% (100 o 129) eu bod wedi profi o leiaf un anhawster a dywedodd 22.5% (29 o 129) nad oeddent wedi unrhyw anhawster. Y rhwystrau a adroddwyd oedd:

- Y gost yn rhy ddrud - 45.0% (58)
- Dim lleoedd ar gael - 30.2% (39)
- Oriau agor ddim yn addas - 26.4% (34)
- Ysgol heb ofal allan o'r ysgol - 9.3% (12)
- Ansawdd gwael - 5.4% (7)
- Cyfleusterau ddim yn addas ar gyfer ADY - 4.7% (6)
- Dim darpariaeth o fewn pellter cerdded - 2.3% (3)

Y bylchau mewn darpariaeth y soniodd teuluoedd amdanynt oedd:

- Fforddiadwyedd a thegwch hawl i ddarpariaeth wedi'i gyllido – Cyfeiriodd rhieni yn aml at 'loteri cod post' cymhwyster Dechrau'n Deg a'r gwahaniaethau gyda chyllid ar gyfer plant dan 3 yn Lloegr
- Gofal plant cofleidiol a gwyliau – Nododd nifer o rieni wasanaeth cofleidiol cyfyngedig neu nad oedd unrhyw wasanaeth cofleidiol yn gysylltiedig gydag ysgolion penodol a chlybiau brecwast yn dechrau'n rhy hwyr ar gyfer oriau gwaith arferol
- Lleoedd cyfrwng Cymraeg – Soniodd teuluoedd am ddiffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Addasrwydd ADY – Disgrifiodd rhieni plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol nifer gyfyngedig o leoedd addas, pryderon am argaeledd 1 i 1 ac atal o glybiau ysgol lle mae angen gofal ymataliaeth
- Gwarchodwyr plant – Tanlinellodd nifer o deuluoedd werth gwarchodwyr plant (soniwyd 16 o weithiau) a gofyn bod dulliau cyllid yn parhau i fod ar gael/cynaliadwy iddynt, yn arbennig lle mae gwarchodwyr plant yn diwallu anghenion plant yn well (yn cynnwys ADY) neu lle mae meithrinfeydd yn llawn
- Ansawdd ac amgylchedd – Er mai dim ond 5.4% ddewisodd "ansawdd gwael" fel rhwystr yn gyffredinol, roedd sylwadau yn cynnwys pryderon am brinder gofod awyr agored, trosiant staff a gweithgareddau goddefol (e.e. teledu) mewn rhai lleoliadau ar ôl ysgol; gofynnodd teuluoedd am weithgareddau wedi eu strwythuro (darllen, gwaith cartref, medrau) i liniaru pwysau adre.

Roedd yr awgrymiadau gan rieni ar yr hyn fyddai'n helpu yn bennaf wedi ei ffocysu ar ychydig o themâu:

- Ehangu cymorth wedi'i gyllido i blant dan 3 a datgysylltu Dechrau'n Deg o god post i gyfateb yn well ag angen
- Ehangu gofal cofleidiol (cyn/ar ôl ysgol) a chapasiti clybiau gwyliau, gyda chlybiau brecwast yn agor yn gynharach ac oriau gwyliau diwrnod llawn (8am – 6pm lle'n bosibl).
- Cryfhau llwybrau cyfrwng Cymraeg i sicrhau parhad ar gyfer teuluoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg.

- Cynyddu lleoedd addas i ADY, yn cynnwys opsiynau gwyliau/seibiant byr gyda chymorth un i un a gofal ymatalrwydd.
- Cynnal ac integreiddio gofal plant o fewn cynlluniau a gyllidwyd (lle'n hyfyw) i gynyddu hyblygrwydd a dewis.
- Annog gwelliannau ansawdd mewn rhai clybiau ar ôl ysgol (gweithgareddau datblygu, mwy strwythuredig; staffio cyson; mynediad i ofod awyr agored).

**CRYNODEB**

Rydym wedi gwneud cynnydd da eleni yng nghyswllt datblygu ac ehangu darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy ac mae darpariaeth gofal plant wedi'i ledaenu'n dda ar draws y sir. Gan fod Sir Fynwy yn ardal wledig gan bennaf, nid yw'n neilltuol o ddefnyddiol monitro darpariaeth gofal plant yn ôl ward neu ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA), yn lle hynny edrychwn arno mewn pum clwstwr o amgylch y pedair prif dref (y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy) ac ardal ganolog Brynbuga a Rhaglan. Mae cyfuniad o ddarpariaeth gofal plant ym mhob un o'r ardaloedd hyn yn cynnwys gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gofalwyr plant a gofal allan o'r ysgol. Rydym hefyd wedi ceisio datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y pentrefi o amgylch, yn arbennig y rhai sydd yn ddigon mawr i gael eu hysgol gynradd eu hun. Dim ond dau o'r pentrefi hyn (Porthsgiwed a Cross Ash) sydd heb unrhyw ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd a rydym wedi cyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf i adeiladu lleoliad gofal plant ar safle Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams ym Mhorthsgiwed, ger Cil-y-coed.

Mae'r defnydd o bob math o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yn parhau yn uchel yn Sir Fynwy. Nid oes unrhyw fylchau amlwg mewn darpariaeth; fodd bynnag, mae ein monitro o leoedd, ynghyd ag adborth gan rieni, yn awgrymu bod ardaloedd lle mae pethau yn dynnach, yn arbennig mewn rhannau o Gas-gwent a Chil-y-coed. Awgrymodd ein ymgynghoriad diweddar gyda darparwyr gofal plant fod darparwyr presennol a fyddai'n ystyried agor lleoliad eraill pe byddai cyfle addas yn codi, felly byddwn yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr hyn o hyn ymlaen i gynyddu ac ehangu ein darpariaeth gofal plant i sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am leoedd.

Bu hefyd ddatblygiadau yn ein darpariaeth allan o'r ysgol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Mae pob ysgol gynradd heblaw un yn Sir Fynwy yn cynnal clwb brecwast am ddim a mae 29 allan o 30 ohonynt hefyd yn cynnig gofal cyn ysgol ar y safle ar gost nominal o £2 a dydd. Caiff y ddarpariaeth hon ei rhedeg gan staff yr ysgolion cyn i'r clwb brecwast am ddim agor, fel arfer o tua 8am, ond nid yw wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gan ei fod yn rhedeg am lai na dwy awr y dydd. Serch hynny, mae'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio a gallodd ysgolion dderbyn y rhan fwyaf o dalebau gofal plant fel taliad ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae gan tua dwy allan o bob tair o'r holl ysgolion cynradd hefyd glwb ar ôl ysgol ar y safle neu drefniadau gyda darparydd lleol yn yr ardal i gasglu o'u hysgol. Mae pedwar clwb ar ôl ysgol yn dal i fod sydd heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a dim ond am lai na dwy awr y dydd y gellir eu cynnal. Mae hyn yn broblem ar gyfer rhai teuluoedd sy'n gweithio, gan nad yw hyn bob amser yn ddigon hir a ni all rhieni ddefnyddio talebau gofal plant neu ofal plant di-dreth mewn darpariaeth heb gofrestru; codwyd y mater hwn yn ein ymgynghoriad diweddar gyda rhieni felly bydd yn faes ffocws yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r galw am ofal plant cofrestredig n ystod gwyliau ysgol yn tueddu i fod yn isel, gan fod teuluoedd yn dewis Gemau Sir Fynwy neu SHEP a darpariaeth chwarae mynediad agored, gan fod hyn yn llawer rhatach neu hyd yn oed am ddim. Serch hynny, byddai'n well gan rai teuluoedd

ddefnyddio gofal plant cofrestredig a gwelsom gynnydd bychan mewn darpariaeth gofal plant gwyliau eleni a rydym yn edrych ar ymestyn hyn i rannau eraill o Sir  Fynwy y flwyddyn nesaf.

Mae diffyg gwarchodwyr plant yn parhau i fod yn bryder i ni yn Sir Fynwy, ond gwelsom y farchnad yn sefydlogi mwy eleni, gydag ychydig iawn o warchodwyr plant presennol yn atal neu'n canslo eu cofrestriad. Ein prif broblem yw, er ein bod yn gweithio'n agos gyda Coram Pacey ac yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cyn-cofrestru a grantiau cychwyn gwarchodwyr plant, rydym yn ei chael yn anodd recriwtio gwarchodwyr plant newydd.

Rydym wedi methu cyrraedd y targed yn ein Cynllun Strategol Addysg Gymraeg i ddatblygu cylchoedd meithrin ym mhob un o'r pedair tref yn Sir Fynwy a chafodd diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ei godi gan rieni yn ein ymgynghoriad diweddar gyda rhieni, ynghyd â'r angen i gryfhau llwybrau i sicrhau parhad darpariaeth ar gyfer y teuluoedd hynny sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg a'r Is-grwp Hyrwyddo'r Gymraeg i ddynodi ffordd ymlaen.

Mae'r gweithlu gofal plant yn gonsyrn cenedlaethol a gall diffyg staff gyda chymwysterau fod yn rhwystr pan fydd lleoliadau yn dymuno ehangu eu darpariaeth. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n pedair ysgol uwchradd i godi proffil gyrfaoedd mewn gofal plant ac yn awr yn cynnig cymhwyster Lefel 2 Gofal Plant, Dysgu, Chwarae a Datblygu fel rhan o'n cwricwlwm ôl-16. Ein cam nesaf yw mynd i ysgolion i siarad gyda myfyrwyr sy'n astudio TGAU newydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau agosach gyda chanolfannau gwaith a dymunwn adeiladu ar hyn a mynychu cynifer o ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau allanol ag sy'n bosibl i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant a chwarae.

Y rhwystr neu fwlch arall mewn darpariaeth a godwyd gan rieni a gofalwyr yw diffyg darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) blynyddoedd cynnar. Nid oes gennym unrhyw ddarpariaeth arbenigol ar hyn o bryd ar gyfer plant dan oedran ysgol yn Sir Fynwy ac mae hyn yn faes sy'n cael ei ymchwilio; serch hynny, gall ein darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant ddiwallu anghenion plant ADY ac ni chaiff unrhyw blentyn ei wrthod oherwydd eu hanghenion. Byddwn yn parhau i roi lefel uchel o gymorth a hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant i'w galluogi i ddiwallu lefel cynyddol angen a welwn yn ein lleoliadau a chynnal ansawdd uchel gofal ac addysg.

Er i ni wneud cynnydd ar lawer o'r targedau a osodwyd y llynedd, mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn debyg i'r ychydig flynyddoedd diwethaf a gellir eu crynhoi fel sy'n dilyn:

- *Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant dan bump oed;*
- *Datblygu darpariaeth ar ôl ysgol ym mhob ysgol gynradd a sicrhau fod oriau gweithredu yn ddigonol i ddiwallu anghenion rheini sy'n gweithio;*
- *Cynyddu darpariaeth gofal plant ar gyfer plant oedran ysgol yn ystod gwyliau ysgol;*

- *Parhau i recriwtio a chadw gwarchodwyr plant;*
- *Datblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy a Chas-gwent;*
- *Parhau i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a chefnogi darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg i ehangu eu darpariaeth;*
- *Hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant a gwaith chwarae i gynyddu'r gweithlu gofal plant a chwarae;*
- *Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chynlluniau a gyllidir gan y llywodraeth sy'n rhoi cymorth gyda chost gofal plant.*

**CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG**

| Targed | Pam fod angen hyn? | Sut y caiff ei gyflawni? | Sut y caiff ei fonitro? | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu 2 leoliad gofal dydd llawn neu ofal sesiynol neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnig mwy o leoedd ar gyfer plant dan 5 oed. | Mae lleoedd ar gyfer plant dan bump oed yn brin mewn rhai rhannau o Sir Fynwy ac, er bod lle mewn rhai sesiynau, nid yw'n bosibl bob amser cynnig lle amser llawn.<br><br>Mae ymestyn gofal plant am ddim ar gyfer pob plentyn dwy oed yn debygol o waethygu'r sefyllfa yma. | Monitro'r defnydd o leoedd mewn gofal dydd llawn a gofal sesiynol drwy ddefnydd o Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a'r Cynnig Gofal Plant, yn ogystal â chyfathrebu rheolaidd gyda darparwyr.<br><br>Cynnig cyngor a chefnogaeth ynghyd â chymhellion ariannol i ddatblygu darpariaeth newydd neu gynyddu lleoedd. | Caiff nifer y lleoliadau ei fonitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru a chaiff y defnydd o leoedd ei fonitro bob tymor.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu monitro drwy adroddiadau chwarterol Grant Cymorth Plant. | Mawrth 2027 |
| Ehangu darpariaeth ar ôl ysgol fel bod gan bob ysgol glwb ar ôl ysgol ar y safle neu o fewn pellter cerdded | Yr adborth gan rieni yw bod prinder lleoedd ar ôl ysgol mewn rhai rhannau o Sir Fynwy, neu nad yw oriau gweithredu bob amser yn diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio | Bydd y Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos gyda Clybiau Plant Cymru i ddatblygu darpariaeth ar ôl ysgol ychwanegol ac annog darparwyr presennol i ymestyn eu horiau gweithredu.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu cynnig fel cymhelliant. | Caiff nifer y lleoliadau eu monitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Caiff grantiau datblygu eu monitro drwy adroddiadau chwarterol CSG. | Mawrth 2027 |
| Datblygu 2 glwb gwyliau mewn rhannau gwahanol o Sir Fynwy | Yr adborth gan rieni yw bod prinder gofal plant yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant oedran ysgol | Bydd y Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio gyda chlybiau presennol a darparwyr newydd i ddatblygu darpariaeth gwyliau. | Caiff nifer y lleoliadau cofrestredig eu monitro drwy adroddiadau misol Arolygiaeth Gofal Cymru. | Gorffennaf 2027 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynigir grantiau datblygu fel cymhelliant. | Caiff grantiau datblygu eu monitro drwy adroddiadau chwarterol CSG | |
| Cofrestru 5 gwarchodwr plant newydd ar draws Sir Fynwy a chefnogi darparwyr presennol i o lefel gynnal y lefel gyfredol o ddarpariaeth gyfredol | Mae bob amser drosiant uchel o warchodwyr plant oherwydd natur dros dro y swydd, ond roedd hyn hyd yn oed yn fwy o broblem yn ystod y pandemig a bu gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm nifer gofalwyr plant yn y pum mlynedd ddiwethaf.<br><br>Gwarchodwyr plant sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol. | Gweithio mewn partneriaeth gyda Coram PACEY i ddarparu sesiynau gwybodaeth i warchodwyr plant a chefnogaeth barhaus drwy'r broses gofrestru ac ar ymgyrch i recriwtio mwy o warchodwyr plant.<br><br>Parhau i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cyn-cofrestru a grantiau dechrau. | Caiff nifer y gofalwyr plant sydd newydd gofrestru gofalwyr plant sydd wedi dadgofrestru ei fonitro drwy adroddiadau misol i Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Monitro'r defnydd o hyfforddiant cyn-cofrestru drwy gofnodion cymorth Coram PACE a'r nifer uchaf erioed o grantiau dechrau gwarchodwyr plant a ddyfernir bob tymor. | Mawrth 2027 |
| Sefydlu cylch meithrin yn Nhrefynwy a Chas-gwent fel bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob un o'r pedwar clwstwr. | Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yng nghlystyrau Trefynwy neu Gas-gwent ar hyn o bryd.<br><br>Mae rhieni wedi codi diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phellter o ddarpariaeth bresennol fel rheswm am beidio defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. | Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol.<br><br>Cynnig cymhellion ariannol tebyg i grantiau datblygu a chynaliadwyedd i dalu am gostau cychwyn a chostau o gostau rhedeg. | Caiff nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a chaiff hyn ei adolygu bob tymor. | Medi 2027 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymestyn nifer y lleoedd, oriau agor neu wasanaethau a gynigir gan ein lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg presennol. | Nid oes digon o ddarpariaeth plant gofal cyfrwng Cymraeg, yn arbennig ofal diwrnod llawn a gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, i ateb anghenion rhieni sy’n gweithio. | Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio’n agos gyda’r Mudiad Meithrin a’r darparwyr presennol i ymestyn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.<br>Cynigir grantiau datblygu fel cymhelliant i gefnogi lleoliadau i ehangu eu darpariaeth. | Caiff nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a chaiff hyn ei adolygu bob tymor. | Mawrth 2027 |
| Mynychu o leiaf 12 digwyddiad i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant gofal plant a gyrfaoedd mewn gofal plant. | Mae diffyg ymarferwyr gofal plant gyda chymwysterau ac mae hyn yn cyfyngu datblygu lleoedd gofal plant ychwanegol, yn ogystal â bygwth hyfywedd darpariaeth gofal plant presennol.<br>Mae angen i ni wneud yr hyn a fedrwn i annog mwy o bobl i hyfforddi er mwyn cynyddu’r gweithlu gofal plant. | Rhoi cyhoeddusrwydd i’r Llyfryn Gyrfaoedd mewn Gofal Plant a rhannu hyn yn eang drwy’r wefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd wyneb-i-wyneb.<br>Mynychu Ffeiriau Gyrfaoedd a digwyddiadau tebyg i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant.<br>Gweithio gyda’r pedair ysgol uwchradd i sefydlu cymhwyster Lefel 2 Gofal Plant fel rhan o’u cwricwlwm ôl-16 | Cofnodi nifer y digwyddiadau a fynychir, negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddulliau arall o hyrwyddo.<br>Cofnodi ymholiadau yn ymwneud â hyfforddiant gofal plant neu gyfleoedd swydd gofal plant.<br>Cofnodi nifer y myfyrwyr sy’n ymrestru ar y cwrs Lefel 2 Gofal Plant ac yn cwblhau’r cwrs. | Parhaus |
| Parhau i hyrwyddo’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a hysbysebu’r cymorth ariannol sydd ar gael i gynorthwyo gyda chost gofal plant (yn cynnwys Dechrau’n Deg, Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar a Gofal Plant Di-dreth). | Yn ôl yr arolwg o rieni ac ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, fforddiadwyedd yw’r prif rwystr i gael mynediad i ofal plant yn Sir Fynwy.<br><br>Mae llawer o gynlluniau ar gael i gefnogi gyda chost gofal plant. | Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo gofal plant newydd a phresennol a'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer plant drwy ein hadran ar wefan Cyngor Sir Fynwy ac ar | Y Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd yn paratoi adroddiadau misol yn cynnwys manylion gweithgareddau hyrwyddo. Defnyddwyr gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn llenwi ffurflenni gwerthuso. | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Caiff y llyfryn ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant ei rannu'n eang. | Monitro'r defnydd o Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a'r Cynnig Gofal Plant bob tymor. | |

**MANYLION CYSWLLT**

Sue Hall
Rheolwr Blynyddoedd Cynnar
Cyngor Sir Fynwy
Cyfeiriad: Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA
Ffôn: 01633 644461
E-bost: susanhall@monmouthshire.gov.uk neu childcare@monmouthshire.gov.uk